Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro
Tasgau Cyfoethog

Ardal: Traeth **Amcan Dysgu: Dod o hyd i wrthrychau naturiol mawr a bach, a'u cymharu**	**Grŵp Blwyddyn y CC:** Meithrin/Dosbarth Derbyn

Maes Dysgu: Datblygiad Mathemategol

Rhaglen Astudio

Datblygu Ymresymu Rhifyddol

Adnabod prosesau a chysylltiadau

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth
- Adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- Dewis geiriau mathemategol priodol
- Defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif.

Cynrychioli a chyfathrebu

- Defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain
- Cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd.

Adolygu

- Defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol

Defnyddio Sgiliau Mesur

- Cymharu, didoli a rhoi trefn ar ddau wrthrych neu fwy ar sail maint, pwysau neu gynhwysedd drwy arsylwi'n uniongyrchol. (Meithrin)
- Defnyddio cymariaethau uniongyrchol gyda hyd, pwysau/màs a chynhwysedd. (Derbyn)

Pennawd/Addas i blant

A allwch chi ddod o hyd i ddwy garreg sy'n union yr un peth?

Meini Prawf Llwyddiant

- Casglwch eich hoff garreg a rhoi rhesymau dros eich dewis.
- Chwiliwch am garreg wahanol i'w chymharu.
- Gweithiwch gyda'ch grŵp i drefnu'ch cerrig i ddangos pa un yw'r lleiaf a pha un yw'r mwyaf.
- Defnyddiwch eich geiriau mathemategol i siarad am sut rydych chi wedi trefnu'ch cerrig.

Beth i'w wneud:

- Gofynnwch i blant ddod o hyd i'w hoff garreg; gadewch i'r plant ddisgrifio a siarad am eu dewis.
- Gofynnwch i'r plant ddod o hyd i garreg gyferbyniol a'i chymharu (siâp, màs, patrwm, gwead, lliw).
- Gofynnwch i bob plentyn edrych ar garreg eu partner; pa garreg yw'r mwyaf a pha

un yw'r lleiaf.

- Dylai'r plant benderfynu pa un yw'r ysgafnaf a disgrifio sut y gwnaethant ddod i'r casgliad hwnnw.
- Nawr, cymharwch y cerrig mewn grŵp – y mwyaf, y lleiaf a rhowch y cerrig mewn trefn yn ôl maint.
- Gofynnwch i'r plant ddewis un garreg i fynd â hi nôl i'r ystafell ddosbarth i'w phwyso (byddwch yn mynd â'r garreg yn ôl i'r traeth ar yr ymweliad nesaf) – Pwy sydd â'r garreg ysgafnaf? Ai dyna'r garreg leiaf? Trafodwch.
- A allant ddod o hyd i'r garreg leiaf ar y traeth?

<u>Ymestyn</u>

- Trefnwch y cerrig o'r trymaf i'r ysgafnaf a/neu o'r hiraf i'r byrraf, y tewaf i'r teneuaf.

Adnoddau:

- Stopwats
- Chwiban
- Camera/ipad.